| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Teulu wedi Gwahanu - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff, rhieni a phlant |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 31/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Teulu wedi Gwahanu**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyfrifoldebau rhieni | 2 |
| 2. | Cymru | 2 |
| 3. | Cofrestru i'r feithrinfa | 3 |


Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn cefnogi teuluoedd sy'n gwahanu. Rydym yn deall y gall hwn fod yn gyfnod anodd ac felly rydym yn gweithio'n agos gyda'r rhieni i sefydlu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol. Rydym yn cefnogi llesiant emosiynol plentyn yn ystod y cyfnod pontio hwn ac yn adrodd am unrhyw newidiadau sylweddol mewn ymddygiad i'r rhieni. Caiff rhieni eu cyfeirio at wasanaethau a sefydliadau perthnasol i gael cefnogaeth i'r teulu cyfan, lle bo angen.

1. Cyfrifoldebau rhieni

Er nad yw'r gyfraith yn diffinio'n fanwl beth yw cyfrifoldeb rhiant, mae'r rhestr ganlynol yn nodi rhai o nodweddion allweddol rhywun sy'n dal cyfrifoldeb rhiant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu cartref i'r plentyn
- Byw a chael cysylltiad â'r plentyn
- Amddiffyn a chynnal y plentyn
- Disgyblu'r plentyn
- Dewis a darparu ar gyfer addysg y plentyn
- Penderfynu ar grefydd y plentyn
- Cytuno i driniaeth feddygol y plentyn
- Enw'r plentyn a chytuno i unrhyw newid i enw'r plentyn
- Hebrwng plentyn y tu allan i'r Deyrnas Unedig a chytuno i blentyn ymfudo, pe bai'r mater yn codi
- Bod yn gyfrifol am eiddo'r plentyn
- Penodi gwarcheidwad i'r plentyn, pe bai hynny'n angenrheidiol
- Caniatáu datgelu gwybodaeth gyfrinachol am y plentyn.

**2. Cymru**

Os yw rhieni'r plentyn wedi priodi â'i gilydd adeg geni'r plentyn, neu os ydynt wedi mabwysiadu'r plentyn ar y cyd, yna mae gan y ddau ohonynt gyfrifoldeb rhieni.  Nid yw rhieni'n colli cyfrifoldeb rhieni os ydynt yn ysgaru, ac mae hynny'n berthnasol i'r rhiant sy'n byw gyda'r plentyn a'r un sy'n byw ar wahân iddo.

Nid dyma'r achos yn awtomatig ar gyfer rhieni sydd heb briodi. Yn ôl y gyfraith bresennol, y fam sydd bob amser a chyfrifoldeb rhieni am ei phlentyn. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifoldeb hwn gan y tad ond os yw'n briod â'r fam pan fydd y plentyn yn cael ei eni neu wedi ennill cyfrifoldeb cyfreithiol am ei blentyn trwy un o'r tri llwybr canlynol:

- Trwy gofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â'r fam (o 1 Rhagfyr 2003)
- Trwy gytundeb cyfrifoldeb rhieni gyda'r fam
- Trwy orchymyn cyfrifoldeb rhieni, a wnaed gan lys.

Rydym yn ymwybodol o wahanol fathau o drefniadau teuluol a byddwn yn ceisio cyngor pellach gan gyfreithiwr, llinell gymorth gyfreithiol NDNA neu ofal cymdeithasol plant os oes angen.

**3. Cofrestru i'r feithrinfa**

Yn ystod y broses gofrestru rydym yn casglu manylion am y ddau riant gan gynnwys pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant, gan y bydd hyn yn osgoi unrhyw sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol.

Rydym yn gofyn am y manylion hyn ar y ffurflen gofrestru plentyn. Os nad oes gan riant gyfrifoldeb rhiant, neu os oes ganddo orchymyn llys ar waith i atal hyn, rhaid i ni gael copi o'r ddogfennaeth hon ar gyfer cofnodion y plentyn.

Os yw plentyn wedi'i gofrestru gan un rhiant o deulu sydd wedi gwahanu, rydym yn gofyn am ddatgeliad o'r holl fanylion perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r rhiant arall fel gorchmynion llys neu waharddebau. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn gefnogi'r plentyn a'r teulu'n llawn yn unol â'r polisi a nodir isod.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod lles y plentyn yn hollbwysig bob amser y mae yn y feithrinfa
- Cydymffurfio ag unrhyw fanylion gorchymyn llys lle bo'n berthnasol i bresenoldeb y plentyn yn y feithrinfa lle mae gennym gopi ynghlwm wrth ffeil y plentyn
- Darparu gwybodaeth am gynnydd y plentyn e.e. teithiau dysgu, gwiriadau cynnydd o fewn y feithrinfa, i'r ddau riant lle mae gan y ddau gyfrifoldeb rhiant
- Gwahodd y ddau riant i ddigwyddiadau meithrinfa, gan gynnwys ymgynghoriadau rhieni a digwyddiadau cymdeithasol lle mae gan y ddau gyfrifoldeb rhiant
- Sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain yn y feithrinfa sy'n ymwneud â'r plentyn yn cael ei adrodd i'r person sy'n casglu'r plentyn
- Sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth y mae staff yn ei gwybod am y teulu ac ymwahaniad y rhieni yn aros yn gyfrinachol
- Sicrhau nad oes yr un aelod o staff yn ochri gydag un rhiant dros y llall yn y gwahaniad a'u bod yn trin y ddau riant yn gyfartal a chyda phob parch
- Peidio â chyfyngu mynediad i unrhyw riant sydd â chyfrifoldeb rhiant oni bai bod gorchymyn llys ffurfiol ar waith. Gofynnwn yn barchus i rieni beidio â'n rhoi yn y sefyllfa hon.
- Byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol rhag ofn unrhyw anghydfodau ynghylch gofal neu gasglu'r plentyn a rhannu gwybodaeth, lle bo angen, er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol.

Gofynnwn i rieni wneud y canlynol:

- Darparu'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â chyfrifoldebau rhieni, gorchmynion llys a gwaharddebau
- Diweddaru gwybodaeth sy'n newid unrhyw beth o'r uchod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl
- Cydweithio â ni i sicrhau didoriant gofal a chefnogaeth eich plentyn
- Peidio â chynnwys staff y feithrinfa mewn unrhyw anghydfod teuluol, oni bai ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar y gofal rydym yn ei ddarparu i'r plentyn

- Siarad â’r rheolwr a/neu weithiwr allweddol oddi wrth y plentyn pan fo’r sgwrs yn ymwneud â’r ymwahaniad teuluol er mwyn osgoi gofidio’r plentyn. Gellir trefnu hyn fel cyfarfod mwy ffurfiol neu fel sgwrs anffurfiol
- Peidio â gofyn i’r feithrinfa ochri gydag un rhiant dros y llall mewn unrhyw anghydfod.  Byddwn ond yn ochri gyda’ch plentyn a bydd hyn yn gofyn i ni fod yn ddiduedd bob amser.